

Allwn i fod  
yn rhoddwr iau byw?



[www.organdonation.nhs.uk](http://www.organdonation.nhs.uk)  
[enquiries@nhsbt.nhs.uk](mailto:enquiries@nhsbt.nhs.uk)  
0300 123 23 23



**Yes I donate**  
ORGAN DONATION

Pan gafodd Geraldine wybod gan feddygon bod angen trawsblaniad iau arni, ofnai y byddai'n gorfod aros yn hir am organ rodd. Ond pan soniodd ei bod yn efaill, awgrymodd ei meddyg y gallai ei chwaer Annemarie fod yn addas ar gyfer trawsblaniad llabed iau byw.



*"Fedlyllais i ddim dwywaith am roi rhan o fy iau i fy chwaer pan aeth yn sâl."*

Annemarie, rhoddwr iau byw

[Rhoddwr iau byw](#) yw person sy'n rhoi rhan o'i iau/afu i rywun gyda methiant yr iau ac mae angen trawsblaniad arnynt (y [derbynnydd](#)). Gallai fod yn ffrind neu'n aelod o'r teulu, neu'n rhywun nad ydynt yn eu hadnabod.

Mae trawsblaniadau iau gan roddwyr byw wedi cael eu perfformio'n llwyddiannus yn y DU ers 1995.

Mae llawdriniaeth trawsblaniad iau'n achub bywydau cleifion gyda chlefyd terfynol yr iau. Caiff hefyd ei berfformio ar rai cleifion gyda chanser cychwynnol yr iau, a phlant gyda chlefydau metabolig (sy'n effeithio ar y prosesau cemegol yn y corff). Mae gwirfoddoli i gynnig rhan o'ch iau yn beth bendedig i'w wneud ond mae hefyd yn benderfyniad pwysig ac mae llawer o bethau i'w hystyried. Gobeithio y bydd y wybodaeth yma'n ateb rhai o'ch cwestiynau posib.

Ar ddiwedd y daflen hon rhoddir geirfa i egluro rhai o'r termau mwy technegol neu fyfoddau a ddefnyddir os na chawsant eu hegluro yn y testun ei hun. Mae'r rhain wedi eu tanlinellu a'u lliwio'n las i'ch helpu.

## Pam fod angen mwy o roddwyr iau byw arnom?

- Mae tua 900 o bobl yn y DU yn derbyn trawsblaniad iau bob blwyddyn
- Ar ddiwedd pob blwyddyn mae tua 600 o bobl gyda chlefyd yr iau ac ar [restr drawsblannu'r](#) DU heb dderbyn trawsblaniad ac yn dal i aros am iau – ac mae'r nifer yn cynyddu
- Pob blwyddyn mae rhwng 15 ac 20% o gleifion ar y rhestr drawsblannu'n marw neu'n cael eu tynnu oddi ar y rhestr wrth aros am organ
- Yn anffodus nid oes digon o ieuau'n cael eu rhoi gan bobl sydd wedi marw fel bo'r cleifion hyn yn gallu cael trawsblaniad
- Ar gyfartaledd, yr amser aros am drawsblaniad iau gan rywun sydd wedi marw ([rhoddwr wedi marw](#)) yw tua 137 diwrnod (4.5 mis). I rai pobl gyda grwpiau gwaed cyffredin fel O, gallent fod yn aros am 244 diwrnod (wyth mis) oherwydd bod mwy o bobl gyda'r grŵp gwaed O yn aros am drawsblaniad. I gleifion gyda chlefyd terfynol yr iau, mae hyn yn amser hir.

# Rhoi rhan o fy iau

## Allwn i wirfoddoli i fod yn rhoddwr iau byw?

Gall pobl iach sydd eisiau helpu un o'u hanwyliaid, neu ddieithryn, sydd â chlefyd yr iau, wirfoddoli i roi rhan o'u hiau. Gwirfoddoli yw'r gair pwysig – rhaid i hyn fod yn rhywbeth yr ydych yn dewis ei wneud ac yn teimlo'n gyffyrddus yn ei wneud.

Bydd angen i chi gael cyfres o brofion fel bo'r tîm trawsblannu'n hollol siŵr eich bod yn addas i fod yn rhoddwr. Mae eich iechyd a'ch diogelwch yn eithriadol bwysig ac mae'n bwysig i chi fod yn ymwybodol o'r dechrau, hyd yn oed os ydych eisiau bod yn rhoddwr, na fydd pawb yn addas ac na fyddwch efallai'n gallu rhoi.

Mae hefyd yn bwysig cofio hyd yn oed os byddwch yn gwirfoddoli, y gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg yn y broses – i fyny at y llawdriniaeth ei hun.

## Pwy sy'n gallu rhoi?

Yn amlach na pheidio, perthynas agos i'r derbynnydd yw'r rhoddwr, fel aelod o'r teulu, partner neu ffrind da. Fodd bynnag gall pobl nad ydynt yn adnabod neb gyda chlefyd yr iau, ond sydd eisiau rhoi, hefyd roi rhan o'u hiau i rywun ar y rhestr drawsblannu genedlaethol. Gelwir y bobl hyn yn [rhoddwyr anhunanol i ddieithryn](#). I ddysgu mwy am fod yn rhoddwr iau anhunanol i ddieithryn, gallwch gysylltu â'r cydgysylltwyr rhoi iau byw yn Ysbyty St James, Leeds neu Ysbyty Coleg y Brenin, Llundain lle mae pobl eisoes wedi rhoi yn y ffordd hon, neu gallwch gysylltu â'ch canolfan drawsblannu iau leol i gael mwy o gyngor. Gyda phob ymholiad arall, mae'n well cysylltu â'r ganolfan drawsblannu lle mae'r derbynnydd sydd gennych mewn golwg yn cael eu hasesu am drawsblaniad. Rhoddir rhifau cysylltu llinellau ffôn uniongyrchol y cydgysylltwyr rhoi iau byw [yma](#).

## A oes cyfyngiad oed ar gyfer rhoddwyr?

O dan y gyfraith yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, nid oes isafswm oed i berson gael ei ystyried fel rhoddwr iau byw. Yn gyfreithiol yn yr Alban gellir ond ystyried pobl dros 16 oed. Fodd bynnag mae bron pob rhoddwr dros 18 oed ac ystyrir plant dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn a gyda chaniatâd y llysoedd. Ni ystyrir plant ar gyfer bod yn rhoddwr i ddieithryn.

Nid oes uchafswm oed penodol ychwaith ond bydd rhoddwyr dros 45 oed ond yn cael eu hystyried os ydynt yn eithriadol o ffit ac iach. Mae rhoddwyr yn cael eu hasesu'n ofalus iawn a bydd tîm o bobl broffesiynol yn yr ysbyty'n ystyried a ydych yn addas.

## Sut y byddaf yn gwybod os wyf yn addas i roi?

Byddwch yn cael nifer o brofion i gadarnhau eich bod yn ddigon iach a ffit i roi.

Efallai y bydd rhai pobl sydd am roi'n canfod na fedrant roi oherwydd canlyniadau'r broses asesu. Bydd aelodau o'r tîm fydd yn rhan o'ch asesiad yn cynnwys meddygon, cydgysylltwyr, seicolegwyr ac aseswyr annibynnol. Bydd y bobl hyn yn eich tywys drwy bob cam o'r broses.

## Sut beth fydd y profion?

Bydd y [Cydgysylltydd Rhoddwr Byw](#) yn eich tywys drwy'r broses gyfan ac yn egluro'r holl brofion sydd angen i chi eu cael. Pwrpas y profion hyn yw cadarnhau eich bod yn ddigon iach i roi a bod eich iau'n gweithio'n iawn. Ar y cyfan nid yw'r profion yn boenus na'n ymwithiol (ond bydd angen cymryd amryw o samplau gwaed yn ystod y broses). Bydd y rhain yn cynnwys sganiau (rhai'n cynnwys cael pigiad), profion wrin a gwaed, pelydrau-x ac olrhain eich calon (drwy wifrau'n sownd wrth badiau gludiog ar eich croen) a phrawf iau arbennig.

Bydd y tîm yn trafod canlyniadau'r profion gyda chi wedyn. Os bydd unrhyw beth annisgwyl yn codi o'r canlyniadau, efallai y bydd angen profion neu asesiadau pellach. Mae'n bosib y bydd y profion yn dangos cyflwr neu salwch nad oeddech yn ymwybodol ohono. Os felly bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi ac atgyfeiriadau a thriniaeth briodol yn cael eu darparu.

Mae rhoddwyr hefyd yn derbyn asesiad seicolegol. Gwneir hyn i sicrhau nad oes gennych broblem iechyd meddwl, oherwydd bod rhoi rhan o'ch iau'n gallu bod yn broses emosïynol iawn ac rydym eisiau sicrhau bod y risg o unrhyw niwed seicolegol i chi'n dderbyniol o fach.

Byddwch hefyd yn cael eich asesu gan [Asesydd Annibynnol](#), ar ran yr [Awdurdod Meinwe Dynol](#), sy'n gwbl ar wahân i'ch tîm meddygol. Cyfarfod un-i-un fydd hwn ar ddiwedd y broses asesu pan ofynnir i chi am eich rhesymau dros roi a'ch dealltwriaeth o'r broses. Yr Asesydd Annibynnol yw eich eiriolwr ac mae'n sicrhau nad oes unrhyw bwysau'n cael eu rhoi arnoch i roi, neu nad ydych yn cael eich talu i roi, a fyddai'n anghyfreithlon, ac unwaith y bydd yn fodlon ynghylch eich addasrwydd bydd yn gofyn i chi lofnodi datganiad. Mae angen i'r Awdurdod Meinwe Dynol gymeradwyo eich rhodd er mwyn i'r llawdriniaeth ddigwydd.

## Y risgiau

**Nid yw'r wybodaeth yma'n ymdrin â chwestiynau meddygol manwl; ei phwrpas yw rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi am roi iau ar sail cyngor gan weithwyr meddygol proffesiynol a chanllawiau presennol y DU, o'r ymchwil sydd ar gael iddynt.** Bydd eich tîm gofal iechyd yn trafod y risg gyda chi'n fwy manwl ac ar sail risg unigol, yn enwedig os oes pryderon amdanoch chi neu eich derbynnydd oherwydd eich ffordd o fyw, hanes meddygol neu grŵp demograffig. Rhaid ystyried y risg yn unigol ar sail eich amgylchiadau unigol.

**Mae hefyd yn bwysig nodi bod yr ymchwil yn y maes hwn yn parhau i esblygu ac nad yw'n cynnwys popeth a allai ddigwydd. Nid yw popeth posib a allai ddigwydd o ganlyniad i roi wedi'i ymchwilio'n llawn.**

### Beth yw'r risgiau i mi?

Mae gan bob llawdriniaeth elfen o risg ac nid yw rhoi rhan o'ch iau yn ddim gwahanol. Mae risg fach y bydd y rhoddwr yn marw: amcangyfrifir bod hyn yn un mewn 200 (ar gyfer rhoi'r llabed dde) neu'n un mewn 500 (ar gyfer rhoi'r llabed chwith).

Mae'r rhan fwyaf o'r cymhlethdodau'n rhai mân ac yn cynnwys heintiau (e.e. y frest, haint briw neu yn yr wrin) ac weithiau, ond yn bur anaml, gwaedu, beil yn gollwng neu glot gwaed.

Mae risg hefyd y bydd y llawdriniaeth i drawsblannu'r iau'n methu a gallai hyn achosi trallod emosiynol os nad yw pethau'n gweithio fel yr oeddech yn disgwyl.

Mae'n bwysig iawn i chi ystyried yr holl risgiau hyn a'u trafod gyda'ch cydgysylltydd wrth benderfynu a fyddai bod yn rhoddwr byw'n iawn i chi. Eglurir y risgiau i chi'n fwy manwl wrth i chi fynd drwy'r broses.

### A oes unrhyw risgiau hirdymor?

Mae'n bosib byw bywyd hir ac iach ar ôl rhoi darn o'ch iau, ond nid yw hyn yn eich amddiffyn rhag problemau meddygol eraill y byddech wedi eu cael beth bynnag.

Mae risg yn rhywbeth cymharol i'r person sy'n rhoi ac i amgylchiadau'r unigolyn a gwyddom y bydd efallai angen ystyriaeth arbennig ar rai grwpiau o bobl. Yn y tymor hir bydd y tîm trawsblannu'n trefnu ôl-apwyntiadau ar eich cyfer gan gynnwys archwiliadau a phrofion gwaed blynyddol.

### A fydd risg y bydd fy iau'n methu?

Mae'r risg y bydd eich iau'n methu ar ôl rhoi'r llabed chwith yn isel iawn; fodd bynnag mae'r risg yn cynyddu wrth roi mwy o'ch iau, fel y llabed dde. Bydd y broses asesu'n ystyried yn ofalus faint o iau y bydd gennych ar ôl er mwyn lleihau'r risg yma. Os bydd eich tîm meddygol yn teimlo y bydd eich risg yn cynyddu, byddant yn eich cynghori'n glir i beidio â rhoi.

## A fydd rhoi'n byrhau fy mywyd?

Mae'n bwysig cofio bod ymchwil yn parhau i effeithiau rhoi organau byw ac nad oes gennym y darlun llawn eto. Nid yw popeth posib a allai ddigwydd o ganlyniad i roi wedi'i ymchwilio'n llawn. Bydd rhoi iau byw ond yn cael ei ystyried mewn unigolion iach a ffit iawn. Bydd rhoddwyr yn cael eu monitro'n ofalus yn y tymor hir ac mae hyn wedi'i brofi i fod yn llesol i'r rhoddwyr.

## A fydd angen i mi newid fy ffordd o fyw ar ôl rhoi?

Na fydd. Fodd bynnag mae'n bwysig bod pob claf sydd wedi cael llawdriniaeth fawr ar eu habdomen yn ceisio osgoi ennill pwysau, ysmegu ac yfed gormod o alcohol. Dylech fod yn gallu byw bywyd normal ac iach a dychwelyd at eich holl weithgareddau arferol.

## A fydd rhoi llabed iau'n effeithio ar fy ngallu i gael plant?

Byddwch yn gallu cael plant ar ôl rhoi rhan o'ch iau er y cyngorwn ferched i beidio â cheisio mynd yn feichiog am 12 mis o leiaf ar ôl rhoi. Nid oes llawer o ddata ar feichiogrwydd ar ôl rhoi iau ond nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu risg uwch o gymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd; gwyddom fod llawer o roddwyr blaenorol wedi cael beichiogrwydd llwyddiannus. Ni fydd rhoi'n effeithio ar ffrwythlondeb dynion.



*Llwyddodd trawsblaniad iau rhwng mam a merch yn y teulu Ahmed yn 2014 i achub bywyd y ferch.*

# Ystyriaethau ymarferol

## A fydd fy yswiriant iechyd yn fy yswirio?

Dylech gadarnhau gyda'ch cwmni yswiriant cyn rhoi. Mae'r tîm trawsblannu bob amser yn hapus i roi help a chymorth os oes gan eich cwmni yswiriant gwestiynau penodol am fod yn rhoddwr ac unrhyw risg gydol oes i chi.

## Beth os wyf yn byw mewn rhan wahanol o'r DU i'r person y byddaf yn rhoi iddynt?

Gallwch dal roi. Fodd bynnag, rhaid i'r asesiad o'r rhoddwr ddigwydd yn yr ysbyty arbenigol. Fel arfer bydd y llawdriniaeth yn digwydd yn yr ysbyty lle mae'r person yr ydych yn rhoi iddynt yn derbyn gofal.

## Beth os ydw i'n byw y tu allan i'r DU?

Gallwch dal roi i ffrind neu aelod o'r teulu ond mae rhai cyfyngiadau ar roi i bobl na chwsoch berthynas agos neu flaenorol â nhw os nad ydych yn byw yn y DU. Gellir trefnu rhai profion rhagarweiniol yn y wlad lle'r ydych yn byw i weld a allech fod yn rhoddwr addas. Dylech gysylltu â'r cydgysylltydd rhoddwr byw yng nghanolfan drawsblannu eich derbynnydd am fwy o gyngor a gwybodaeth. Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf ac ystyrir eich bod yn rhoddwr addas, mae cymorth cyfieithu ar gael drwy'r broses asesu fanwl.

## Pa mor hir y mae'r broses asesu rhoddwr yn ei gymryd?

Mae'r broses asesu fel arfer yn cymryd 6-8 wythnos; gallai gymryd llai neu fwy o amser gan ddibynnu ar yr ysbyty lle'r ydych yn cael eich asesu a'r math o brofion sydd eu hangen arnoch. Lle bynnag y bo'n bosib mae'r broses asesu'n cael ei theilwrio o'ch cwmpas chi a'ch ymrwymadau eraill.

## Faint o amser y bydd angen i mi ei gymryd i ffwrdd o'r gwaith?

Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau trawsblannu'n ceisio trefnu ymchwiliadau a phrofion cyn y llawdriniaeth o gwmpas eich gwaith i darfu cyn lleied â phosib ar eich bywyd beunyddiol. Mae'r cyfnod adfer ar ôl y llawdriniaeth fel arfer yn para hyd at 12 wythnos, gyda'r rhan fwyaf o roddwyr yn gallu dychwelyd i weithio ar ôl 12 wythnos.

## Sut y byddaf yn gallu fforddio amser i ffwrdd o'r gwaith?

Mae gan y DU gynllun lle gall rhoddwyr hawlio costau angenrheidiol yn ôl, fel colli enillion a chostau teithio. Ond dylech drafod hyn yn gyntaf â'ch cyflogwr i weld beth sydd ar gael o dan eich (eu) telerau gwaith o ran Tâl Salwch Statudol. Dylech drafod costau â'ch Cydgysylltydd Rhoddwr Byw yn ddigon cynnar yn y broses os bydd angen i chi wneud cais i'r cynllun oherwydd mae peth gwybodaeth y bydd angen i chi ei darllen a ffurflen gais i'w llenwi. Bydd hefyd angen dangos tystiolaeth o'ch enillion a'ch costau.



# Ystyriaethau diwylliannol

## Beth yw'r farn ddiwylliannol am roddion byw?

Mae'r DU yn lle cynyddol amlddiwylliannol. Os oes gennych unrhyw bryderon am roddion byw, dylech gysylltu â'ch Grŵp Cymdeithas Gymunedol neu arweinwyr cymunedol.

## Beth yw'r farn grefyddol am roddion byw?

Mae'r rhan fwyaf o grefyddau o blaid rhoddion byw ac yn ei weld fel rhodd i anwyliad. Ond os oes gennych unrhyw amheumon, dylech gysylltu â'ch arweinydd crefyddol neu addoldy am gymorth a chyngor.

## Pa mor hir fydda i yn yr ysbyty?

Mae hyn yn amrywio gan ddibynnu ar ba mor dda yw eich adferiad a'r math o lawdriniaeth, ond fel rheol rhwng 6 a 10 diwrnod.

## Pa mor boenus fydd y broses?

Pan fyddwch yn deffro byddwch eisoes wedi derbyn moddion lladd poen cryf i leihau unrhyw anghysur ar ôl y llawdriniaeth a byddwch yn parhau i dderbyn y moddion hyn am gyn hired ag y bo'u hangen arnoch yn yr ysbyty. Byddwch hefyd yn cael tabledi lladd poen i fynd adref gyda chi.

## A fydd fy iau'n tyfu'n ôl?

Mae'r iau'n wyrthiol o beth ac yn gallu tyfu (proses a elwir yn hypertroffedd) ac ymdopi â'ch anghenion metabolig unigol. Mae'r broses hon yn dechrau'n syth bron a gall barhau am hyd at 8 wythnos.

## A fydd angen i mi gymryd unrhyw feddyginiaeth ar ôl rhoi?

Bydd angen i chi gymryd y tabledi lladd poen y soniwn amdanynt uchod am gyfnod byr, fodd bynnag ni fydd angen unrhyw feddyginiaeth hirdymor arnoch ar ôl rhoi llabed iau.

## Beth am ôl-apwyntiadau?

Byddwn yn gofyn i chi ddod yn ôl i'r ysbyty tua phedair wythnos ar ôl rhoi i sicrhau eich bod yn gwella ac yn mendio'n dda. Bydd y tîm rhoddwyr byw mewn cysylltiad â chi bob blwyddyn ar ôl rhoi fel y medrant wneud yn siŵr eich bod yn dal i fod yn iach a ffit ar ôl rhoi. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i chi godi unrhyw bryderon sydd gennych. Os nad ydych yn byw yn y DU, byddwch yn cael gwybod sut i drefnu ôl-apwyntiad yn eich gwlad eich hun cyn mynd adref.

# Penderfynu ai rhoi iau yw'r peth iawn i chi

## Ydy rhai rhoddwyr yn cael trafferth gwneud y penderfyniad?

Mae rhoi rhan o'ch iau'n benderfyniad personol iawn ac nid yw'n rhywbeth y mae pawb yn teimlo'n gyffyrddus ag ef. Dim ond chi fydd yn gallu penderfynu a yw'n rhywbeth yr hoffech wirfoddoli i'w wneud. Mae amryw o wahanol resymau pam fod pobl yn rhoi rhan o'u hiau. Mae rhai pobl yn gwneud y penderfyniad yn hawdd ac eraill yn pendroni'n sylweddol cyn penderfynu. Mae bod ag ofn rhoi rhan o'ch iau, neu deimlo'n euog am beidio â bod eisiau rhoi, yn normal iawn. Yr unig benderfyniad 'iawn' yw'r un sy'n gwneud i chi, y darpar roddwr, deimlo'n gyffyrddus. Gall dysgu mwy am roi organau byw, a thrafod pethau â'r tîm meddygol a'ch teulu a ffrindiau, eich helpu i wneud y penderfyniad hwn.

## Alla i siarad â rhywun sydd wedi rhoi?

Weithiau mae'n ddefnyddiol siarad gyda rhywun sydd eisoes wedi bod drwy'r broses i'ch helpu i wneud eich penderfyniad. Gall y cydgysylltydd yn eich canolfan drawsblannu rhoi iau byw leol drefnu hyn.

## Beth os byddaf yn penderfynu peidio â bod yn rhoddwr?

Eich dewis chi'n llwyr yw gwirfoddoli i fod yn rhoddwr a gall y siwrne rhwng gwirfoddoli i roi, a rhoi yn y pen draw, fod yn un anodd ac emosiynol. Weithiau mae pobl yn penderfynu nad ydynt eisiau rhoi hanner ffordd drwy'r broses asesu. Mae'n bwysig cofio eich bod yn rhydd i newid eich meddwl ar unrhyw adeg. Mae'r tîm trawsblannu eisiau i chi fod yn gyffyrddus â'r dewis a wnewch a bydd y tîm yn cefnogi ac yn parchu unrhyw benderfyniad a wnewch yn ystod y broses – hyd yn oed i beidio â rhoi yn y diwedd.

Cofiwch siarad â'ch cydgysylltydd ar unrhyw bwynt yn y broses os nad ydych yn siŵr eich bod eisiau bod yn rhoddwr.

## Pwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol?

Ar ôl cyflawni'r profion i gyd, bydd y tîm trawsblannu yn eu hasesu. Bydd y trawsblaniad ond yn digwydd os yw'r rhoddwr a'r derbynnydd yn fodlon symud ymlaen ac mae'r tîm trawsblannu'n ffyddiog bod y rhoddwr a'r derbynnydd yn ddigon iach i symud ymlaen yn ddiogel.

## A fydd y trawsblaniad yn llwyddo?

Mae trawsblaniad iau gan roddwr byw fel arfer yn llwyddiannus dros ben ac yn debyg i lwyddiant trawsblannu iau gan roddwr sydd wedi marw. Ond nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y trawsblaniad yn llwyddo ac mewn nifer fach o achosion gall y trawsblaniad fethu a bydd hyd yn oed angen ail drawsblaniad. Cyn symud ymlaen, mae'n bwysig ystyried sut y gallech deimlo os nad yw'r trawsblaniad yn llwyddo.

## Y camau nesaf

### Beth yw'r peth cyntaf y dylwn ei wneud os wyf am gael fy ystyried fel rhoddwr byw?

Os ydych am gael eich ystyried fel rhoddwr byw, dylech gysylltu â'r cydgyssylltydd rhoi iau byw yn eich canolfan drawsblannu leol neu yn y ganolfan drawsblannu lle mae'r derbynnydd sydd gennych mewn golwg yn cael eu hasesu ar gyfer trawsblaniad os gwyddoch ble mae'r ganolfan honno. Rhoddir rhifau cysylltu llinellau ffôn uniongyrchol ar gyfer y cydgyssylltwyr rhoi iau byw [yma](#).

### Sut y mae rhoi organau byw'n cael ei lywodraethu yn y DU?

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon mae [Deddf Meinwe Dynol 2004](#), ac yn yr Alban [Deddf Meinwe Dynol \(yr Alban\) 2006](#), yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhoi organau a meinwe yn y DU. Yr Awdurdod Meinwe Dynol (HTA) sy'n rheoleiddio rhoi organau solid a rhannau o organau gan bobl fyw. Rhaid cael caniatâd y HTA cyn y gall pob rhodd fyw fynd yn ei blaen. Asesir pob rhoddwr gan [Asesydd Annibynnol](#) sy'n berson hyfforddedig ac achrededig gan yr HTA, fel rhan arferol o'r broses werthuso, i sicrhau bod yr holl ofnyion cyfreithiol wedi cael eu cwrdd. O dan y gyfraith rhaid i'r rhoddwr ddeall yn llawn beth yw natur a pheryglon y llawdriniaeth ac nad oes unrhyw gam-gymell, pwysau na thâl yn ymwneud â rhoi'r organ neu ran o organ, sy'n anghyfreithlon yn y DU.

## Rhoi llabed iau i blentyn

Ar gyfartaledd yr amser aros am drawsblaniad iau (gan [roddwr wedi marw](#)) ar gyfer plant yw 74 diwrnod (2.5 mis) ond bydd rhai plant yn gorfod aros rhwng 12 a 18 mis.

Lle mae plentyn yn y cwestiwn, mae'r rhoddwyr byw fel arfer yn berthynas agos a rhieni yw'r rhoddwyr gan amlaf. Gellir hefyd ystyried neiniau a theidiau neu frodyr a chworydd, gan ddibynnu ar eu hoed, ynghyd â modrybedd ac ewythrod ac aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau agos.

## A fyddaf yn derbyn llawdriniaeth yn yr un ysbyty â fy mhentyn?

Mae hyn yn dibynnu lle mae eich llawdriniaeth yn digwydd. Mae rhai ysbytai'n gofalu am oedolion a phlant a bydd eraill ond yn gofalu am blant. Lle bynnag yr ydych, bydd tîm o bobl yn gofalu am y ddau neu'r ddwy ohonoch. Bydd asesiad a llawdriniaeth y rhoddwr bob amser yn digwydd mewn canolfan drawsblannu i oedolion. Bydd hon wrth ymyl os ydych chi a'ch plentyn yn derbyn gofal mewn ysbytai gwahanol.

## Os fi yw'r rhiant a'r rhoddwr, pwy fydd yn gofalu am fy mhentyn tra byddaf yn yr ysbyty?

Bydd angen ichi gynllunio ddigon ymlaen llaw i ofalu am eich plentyn tra byddwch yn yr ysbyty a bydd eich tîm trawsblannu'n gallu eich helpu i wneud hyn. Mewn rhai teuluoedd y rhiant nad yw'n rhoi sy'n aros gyda'r plentyn ond gellir hefyd enwebu nain neu daid, modryb neu ewythr neu ffrind agos i'r teulu. Pwy bynnag y bydd, rhaid iddynt fod yn rhywun yr ydych chi a'ch plentyn yn teimlo'n gyffyrddus â nhw ac yn deall beth y mae bod yn yr ysbyty gyda'ch plentyn yn ei olygu. Gallwch siarad â meddyg neu nyrs eich plentyn am hyn, fydd yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i'ch helpu i benderfynu. Mae'n bwysig gwneud trefniadau gofal plant ar gyfer unrhyw blant eraill sydd efallai gennych ac i gael help yn y cartref yn syth ar ôl i chi adael yr ysbyty. Mae pobl ar gael i'ch helpu gyda hyn ac unrhyw bryderon ymarferol eraill a allai fod gennych.

## Os byddaf yn rhoi, pa mor hir fydd fy adferiad?

Gall eich adferiad gymryd hyd at 12 wythnos gan ddibynnu ar eich llawdriniaeth a'ch cynnydd fel unigolyn. Bydd angen i chi orffwys ar ôl cael eich rhyddhau o'r ysbyty a bydd angen cynllun ymlaen llaw fel bod pobl eraill yn gallu helpu i ofalu am eich plentyn a gyda thasgau domestig trwm o ddydd i ddydd.

Lle alla i ddod o hyd i fwy o wybodaeth neu gyngor am  
Roddion Iau Byw?

**Am fwy o wybodaeth am roi iau byw dylech gysylltu â'r cydgysylltydd  
rhoddwyr byw yn un o'r canolfannau trawsblannu arbenigol ar  
gyfer rhoi iau byw.** Mae rhestr o'r rhain ar wefan [Gwasanaeth Gwaed a  
Thrawsblaniadau'r GIG](#).

**Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG**

E-bost: [enquiries@nhsbt.nhs.uk](mailto:enquiries@nhsbt.nhs.uk)

Ffôn: **0300 123 23 23**

Gwefan: [www.organdonation.nhs.uk](http://www.organdonation.nhs.uk)

**Yr Awdurdod Meinwe Dynol (HTA)**

Finlaison House, 15-17 Furnival Street, Llundain, EC4A 1AB

E-bost: [enquiries@hta.gov.uk](mailto:enquiries@hta.gov.uk)

Ffôn: **020 7211 3400**

Gwefan: [www.hta.gov.uk](http://www.hta.gov.uk)

**Rhoi organau tra rydych yn fyw, Yr Alban:**

[www.organdonationscotland.org/tell-me-about-living-donation](http://www.organdonationscotland.org/tell-me-about-living-donation)

**Rhoi organau tra rydych yn fyw, Gogledd Iwerddon:**

[www.donatelife.co.uk](http://www.donatelife.co.uk)

## Geirfa

### Aseyydd Annibynnol

Person hyfforddedig ac achrededig sy'n annibynnol ar y tîm trawsblannu. Maen nhw'n cyfweld rhoddwyr a derbynnyddion trawsblaniad organ byw yn y DU ac yn rhoi adroddiad i'r HTA.

### Cydgysylltydd Rhoddwr Byw

Nyrs arbenigol a'r person fydd eich prif bwynt cyswllt ac yn eich tywys drwy gydol y broses roi.

### Derbynnydd

Person gyda chlefyd yr iau sy'n derbyn trawsblaniad iau.

### Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT)

Awdurdod iechyd arbennig yn y GIG sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cyflenwad o waed, organau a meinweoedd. O fewn y NHSBT mae'r Gyfarwyddiaeth Rhoi a Thrawsblannu Organau (ODT) yn gyfrifol am sicrhau bod rhoddion organau a meinweoedd yn cael eu paru â chleifion sydd angen trawsblaniad a'u defnyddio yn y ffordd decaf.

### Rhestr Drawsblannu

Rhestr o gleifion ar draws y DU sy'n aros am drawsblaniad iau.

### Rhoddwr anhunanol i ddieithryn

Person sy'n rhoi organ iach (rhan o'u hiau neu un o'u harenau) i gael ei thrawsblannu tra byddant yn fyw, ond i rywun nad ydynt yn eu hadnabod.



## Rhoddwyr iau byw

Person sy'n rhoi rhan (llabed) iach o'u hiau tra byddant yn fyw i rywun sydd angen trawsblaniad iau.

## Rhoddwyr wedi marw

Person sy'n rhoi eu horganau a meinweoedd i'w trawsblannu ar ôl iddynt farw.

## Y Ddeddf Meinwe Dynol

Mae Deddf Meinwe Dynol 2004 ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a Deddf Meinwe Dynol (Yr Alban) 2006, yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhoi organau a meinwe yn y DU. Mae rheolau'r Awdurdod Meinwe Dynol (HTA) yn nodi bod yn rhaid cwrdd â gofynion penodol cyn y gall rhodd gan roddwr byw ddigwydd. Rhaid i bob llawdriniaeth trawsblaniad rhoddwr byw gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod HTA yn dilyn asesiad annibynnol.

## Yr Awdurdod Meinwe Dynol (HTA)

Yr Awdurdod Meinwe Dynol: corff rheoleiddio a sefydlwyd i weithredu gofynion y Ddeddf Meinwe Dynol (2004).

## Ffynonellau

UK Living Donor Liver Transplantation, BTS/BASL Rhifyn 1af, Gorffennaf 2015.

Guidance for Living Organ Donors on the Human Tissue Authority's Independent Assessment Process, diwygiwyd Mehefin 2015.

Organ donation and religious perspectives, NHSBT, 2009.

---

## Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

Mae Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT) yn achub a gwella bywydau drwy ddarparu cyflenwad diogel, dibynadwy ac effeithlon o waed, a gwasanaethau cysylltiedig, i'r GIG yn Lloegr. Ni yw corff rhoddwyr organau'r Deyrnas Unedig ac rydym yn gyfrifol am baru a dyrannu organau a roddir. Dibynnwn ar filoedd o aelodau'r cyhoedd sy'n rhoi eu gwaed, organau, meinweoedd a bôn-gelloedd yn wirfoddol.

**Am fwy o wybodaeth**

**Ewch i** [blood.co.uk](https://www.blood.co.uk)

**Ffoniwch** **0300 123 23 23**